


CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND




# Cynllun Corfforaethol

2022-24

Cyflwyniad

# Ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer y Flwyddyn Nesaf: Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

**Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ein ffocws parhaus yw cefnogi pobl a chymunedau ledled y DU i lwyddo a ffynnu. Bob blwyddyn, rydym ni'n dyfarnu tua 12,000 o grantiau gwerth tua £600 miliwn, gan gyrraedd pob ardal leol ledled y wlad a sicrhau bod prosiectau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol ar y blaen wrth wella bywydau.**

Wrth i'r DU ddod allan o'r pandemig, mae'n eglur y bydd angen ein cyllid yn fwy nag erioed. Yn ystod y flwyddyn nesaf, ein ffocws cyntaf yw'r ymrwymiad i gymunedau. Byddwn ni'n defnyddio adnoddau'r Gronfa, gan fanteisio ar ein holl gryfderau, ein pobl a'n hangerdd i gefnogi cymunedau i adfer, adsefydlu a thyfu. Wrth i ni wneud hyn, byddwn ni'n dangos y gwahaniaeth y gallwn ei wneud gyda'n gilydd ac yn herio ein hunain i gyflawni'r effaith fwyaf gyda'n cymunedau, ac ar eu cyfer.

Bydd ein cyllid yn parhau i fod yn agored ac yn hygyrch - mae cyllid y Loteri Genedlaethol i bawb - gydag amrywiaeth o raglenni a phortffolios yn bodloni anghenion grwpiau a chymunedau amrywiol. Byddwn ni hefyd yn cefnogi cymunedau i chwarae eu rhan i fynd i'r afael â bygythiad byd-eang yr argyfwng hinsawdd a natur a byddwn ni'n dod o hyd i'r rôl fwyaf effeithiol y gall y Gronfa ei chwarae. Bydd 2022 yn flwyddyn o ddathlu cenedlaethol (#Dathlu2022) ac rydym wrth ein boddau i gefnogi adegau o falchder cenedlaethol, yn enwedig Gemau'r Gymanwlad a Jiwbilî Platinwm y Frenhines - adegau a fydd yn dod â phobl ynghyd ac yn hybu ysbryd a chysylltiad cymunedol.

Eleni, rydym wedi dechrau gweithio i adnewyddu ein strategaeth. Mae'r weithred hon yn amserol, gan adlewyrchu'r newidiadau a'r heriau, y cyfleoedd newydd a'r gobeithion, yr ydym yn gwybod sydd gan y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddwn ni'n uchelgeisiol ac yn fentrus, gan ail-lywio ein gwaith gyda mwy o bwrpas, effaith, perthnasedd a gwerth ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Byddwn ni'n ymgynghorol, yn drylwyr ac yn graff, gan edrych ar y tu allan ac ar ein gwaith diweddar i wrando a dysgu gan bopeth.

I orffen, rydym ni'n parhau â'r gwelliannau sefydliadol a ymrwymwyd iddynt yn 2021 a byddwn ni'n dryloyw ac yn atebol am y cynnydd a wnawn.

Gan bawb ohonom yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, diolch i'r holl brosiectau gwych sy'n ymgeisio am ein grantiau ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ledled y DU – ac wrth gwrs i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol sy'n codi swm rhyfeddol o £30 miliwn yr wythnos at achosion da, sy'n gwneud ein grantiau'n bosibl.

Byddwn ni'n parhau i ymrwymo i gymunedau a dosbarthu'r cyllid hwn yn effeithlon, yn ddoeth a chydag effaith.

**David Knott**
Prif Weithredwr Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Disgrifiad o'r ddelwedd ar y clawr blaen: Monkstown Boxing Club and L'Arche Village

TF22_030

# Ein pwrpas

Rydym ni'n cefnogi pobl a chymunedau i lwyddo a ffynnu



Footprints Women's Centre



Scotland's Bravest

# Ein perfformiad

**DPA 1** Bydd boddhad cwsmeriaid o leiaf **80%**

**DPA 2** Bydd costau gweithredu'n unol â'n trothwy cytunedig o **7.75%** o incwm dros dair blynedd

**DPA 3** Bydd dyfarniadau grant **+/– 5%** o'r gyllideb

**DPA 4** Bydd ein sgôr ymgysylltu gweithwyr o leiaf **76%**

**DPA 5** Mae pobl sy'n ymwybodol bod y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da dros **45%**

**DPA 6** Mae pobl sy'n ymwybodol o bwrpas Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol dros **45%**

**DPA 7** Bydd o leiaf **80%** o'n grantiau'n cael eu dyfarnu i elusennau a sefydliadau cymunedol

# Ein hegwyddorion

Mae'r hyn yr ydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithredu fel sefydliad yn seiliedig ar ein hegwyddorion.

**Ar gyfer pawb**
Mae ein grantiau'n agored i bob cymuned beth bynnag yw eu man cychwyn ac rydym yn deall y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai ohonynt

**Cryfderau pobl**
Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad

**Catalydd i bobl eraill**
Rydym yn gwrando, gweithredu ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid

**Cyfeiriad a rennir, dulliau amrywiol**
Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw ledled y Deyrnas Unedig, yn gyson o ran ansawdd y cyfleoedd a gynigiwn, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb

**Hyder, nid rheolaeth**
Mae gennym ffydd mewn gallu pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein hariannu alluogi yn hytrach na rheoli


**Prosesau syml, barn dda**
Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda

**Defnyddio adnoddau'n dda**
Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy



Disgrifiad o'r ddelwedd: Jigsaw Ni

# Ein hamcanion yn ymarferol



## Amcan 1

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau ledled y DU

## Amcan 2

Mae ein hariannu'n rhagweld ac yn catalyddu newid ehangach i sicrhau bod cymunedau ledled y DU, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn llwyddo a ffynnu

## Amcan 3

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn werthfawr, yn ddibynadwy ac yn effeithlon

**Portglenone Enterprise Group**

# Amcan 1

## Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy’n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau draws y DU

**Ffocws strategol 1:** Drwy gynnig grantiau gwych, byddwn ni’n buddsoddi **£1.4bn[1] pellach mewn cymunedau ledled y DU dros y ddwy flynedd nesaf** diolch i gyllid y Loteri Genedlaethol. Byddwn ni’n gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynyddu potensial buddsoddi ehangach i gyflawni’r effaith fwyaf i gymunedau

## Sut rydym ni’n pennu llwyddiant:

### Mae cyfleoedd ariannu ar draws portffolios yn berthnasol, hygyrch ac effeithiol, gan gefnogi’r prosiectau gorau a galluogi cymunedau i ffynnu

- Bydd 95% o’n cyllidebau grant yn cael eu hymrwymo ar draws pob portffolio ariannu
- Bydd ein cynnyrch ariannu ac offer cynnig grantiau ategol craidd yn cael eu gwella’n barhaus i alluogi grantiau gwych ar draws ein pum portffolio ariannu
- Datblygu adroddiadau cynnydd ac effaith cadarn a lywiwyd gan ddata ar gyfer pob grant byw ar draws portffolios a themâu
- Mae pob portffolio yn sicrhau bod ein cynnig ariannu yn parhau i fod yn berthnasol ac yn bodloni anghenion cymunedau ledled y DU i gyflawni newid hirdymor
- Rydym ni’n ymateb i flaenoriaethau a digwyddiadau cenedlaethol sy’n dod i’r amlwg, gan chwilio am gyfleoedd a’u sicrhau i ariannu’n gydweithredol

### Mae ymholwyr, ymgeiswyr a deiliaid grant yn adrodd profiad cwsmer hyd yn oed yn well

- Bydd boddhad cwsmeriaid o leiaf 80%
- Mae’r holl staff ariannu’n derbyn hyfforddiant trylwyr a chadarn sy’n eu galluogi i gynnig grantiau gwych

### Rydym ni’n herio ac yn cefnogi deiliaid grant i wella eu perfformiad amgylcheddol, ac i gefnogi cymunedau wrth weithredu yn erbyn newid hinsawdd

- Rydym ni’n parhau i fuddsoddi mewn gweithredu hinsawdd a arweinir gan y gymuned gydag o leiaf 50% o gyllideb y Gronfa Gweithredu Hinsawdd wedi’i ymrwymo erbyn mis Mawrth 2023
- Rydym ni’n parhau i ddatblygu dulliau effeithiol i lywio perfformiad amgylcheddol gwell mewn sefydliadau a ariennir, gan gynnwys cyflwyno gofynion amgylcheddol lleiaf ar gyfer prosiectau a ariennir, a byddwn ni’n dechrau gweithredu hyn ar draws ein cynnyrch ariannu
- Rydym ni’n ysbrydoli a chodi lefel yr uchelgais amgylcheddol ar draws y sector cymunedol; gan arwyddbostio arferion gorau a darparu cyngor o ansawdd uchel i ymgeiswyr, deiliaid grant a rhanddeiliaid sector eraill
- Byddwn ni’n defnyddio dull newydd ar gyfer prosiectau cyfalaf gan sicrhau bod yr asedau yr ydym yn eu hariannu’n bodloni arferion gorau o ran perfformiad amgylcheddol

[1] Mae’r ffigwr hwn yn cynnwys £650 miliwn o gyllidebau arfaethedig grantiau’r Loteri y flwyddyn ac incwm arfaethedig Cyfrifon Segur cyfredol o dua £100m

# Amcan 1

## Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau draws y DU

**Ffocws strategol 2:** Byddwn ni'n **cynnwys tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ein diwylliant a phrosesau cynnig grantiau,** gan sicrhau bod ein cyllid yn cyrraedd pob cymuned gan wneud effaith amlwg ac adlewyrchu amrywiaeth y DU

## Sut rydym ni'n pennu llwyddiant:

**Mae ein hariannu'n hygyrch, hyblyg ac yn cael ei ddosbarthu'n deg**

- Byddwn ni'n galluogi mwy o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ddyluniad a darpariaeth ein rhaglenni ariannu a'r perthnasoedd yr ydym yn eu ffurfio a'u cynnal ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Byddwn ni'n arloesi ein rhaglenni ariannu, i adlewyrchu croestoriad materion
- Byddwn ni'n casglu tystiolaeth a data ar gyrhaeddiad daearyddol, amrywiaeth, hygyrchedd, cynhwysiant ac effaith ein hariannu
- Byddwn ni'n defnyddio ein tystiolaeth a data i adnabod angen cymharol ac annhegwch, gan wella amrywiaeth, cyrhaeddiad, hygyrchedd, cynhwysiant ac effaith ein hariannu

**Fel arweinydd a chatalydd, rydym ni'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant**

- Byddwn ni'n defnyddio ein perthnasoedd unigryw, adnoddau, gwybodaeth a data i adnabod a rhannu'r hyn sy'n gweithio i gymunedau sydd â'r angen mwyaf
- Byddwn ni'n defnyddio ein hadnoddau i ymgynnull a chydweithredu i ddeall heriau a chynyddu hygyrchedd a chynhwysiant i gymunedau
- Byddwn ni'n datblygu fframwaith i gynyddu gwerth grwpiau gwaith ac ymgynghorol yn y Gronfa a sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi ac yn creu mwy o effaith mewn cymunedau

# Amcan 2

## Mae ein hariannu'n rhagweld ac yn catalyddu newid ehangach i sicrhau bod cymunedau ledled y DU, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn llwyddo a ffynnu

**Ffocws strategol 3: Rydym ni'n cefnogi cymunedau,** a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw, i ddatblygu'r sgiliau, asedau a galluedd priodol **i gyflawni eu hamcanion**

## Sut rydym ni'n pennu llwyddiant:

**Rydym wedi cynnal adolygiad strategol, sy'n ein galluogi i adlewyrchu amcan a strategaeth newydd i gymunedau**

- Mae ein strategaeth newydd yn ymatebol i gymuned, tystiolaeth ac yn unol â pholisi llywodraethol
- Rydym ni'n canolbwyntio ar themâu lle y gallwn ni wneud gwahaniaeth nodedig sy'n ychwanegu gwerth, gan gynnwys ieuenctid, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ac adnewyddu cymunedol
- Rydym ni'n cadw golwg ar y dyfodol, gan hyrwyddo cydweithrediad ac arloesi sy'n helpu sicrhau cynnydd ac uno'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu

**Rydym wedi hwyluso ymgysylltiad a thrafodaeth eang â rhanddeiliaid i adeiladu safbwynt cyffredin, sy'n esblygu gyda chymunedau a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw**

- Rydym ni'n datblygu ein dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cymunedau a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw
- Rydym ni'n archwilio meysydd newid sy'n dod i'r amlwg yn ystod adeg bwysig o esblygiad i gymunedau
- Rydym ni'n cael gwell dealltwriaeth o arwain arferion effeithiol sy'n gallu helpu ysbrydoli a chefnogi adnewyddu a gwytnwch cymunedol

**Rydym wedi datblygu ein rhaglenni, polisïau ac arferion ariannu i adlewyrchu ein dealltwriaeth o anghenion a gwerth cymunedau**

- Rydym ni'n adolygu rhaglenni ariannu ein Portffolio Gwlad gyda chynnig ariannu newydd sy'n berthnasol i'r dyfodol
- Rydym ni'n datblygu polisïau ac arferion ariannu i gefnogi tystiolaeth a strategaeth a gwneud penderfyniadau a hysbysir gan ddata
- Rydym ni'n defnyddio ein safle canolog yn y sector i greu cysylltiadau priodol rhwng sefydliadau i wella capasiti a darpariaeth gwasanaeth effeithlon, cefnogi ag uwchsgilio'r rhai hynny sy'n gweithio â chymunedau, ac annog rhannu arferion gorau rhwng cymheiriaid

# Amcan 2

## Mae ein hariannu'n rhagweld ac yn catalyddu newid ehangach i sicrhau bod cymunedau ledled y DU, a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, yn llwyddo a ffynnu

**Ffocws strategol 4:** Byddwn ni'n **defnyddio dull sy'n seiliedig ar effaith,** gan ddefnyddio ein hariannu, mewnwelediad a pherthnasoedd i **feithrin cysylltiadau** ar draws cymunedau ac o'u mewn, **llywio ein hariannu a'n strategaeth ac ymgysylltu a hysbysu eraill**

## Sut rydym ni'n pennu llwyddiant:

**Rydym ni'n cynyddu effaith trwy ddata, mewnwelediad, gwybodaeth a dysgu a gafwyd o'n hariannu ac yn ei gylch, ac yn defnyddio hyn i wella arferion yn y dyfodol**

- Mae gan ein Data ffocws, mae'n gyson ac yn gywir ac yn hysbysu ein penderfyniadau ariannu
- Byddwn ni'n cyhoeddi tystiolaeth o'n heffaith i rannu'r hyn yr ydym yn ei wybod ag eraill, i hysbysu a gwella arferion ehangach
- Byddwn ni'n adeiladu gallu wrth gasglu a rhannu data thematig a daearyddol

**Rydym ni'n ymgynullydd credadwy, dylanwadol a chysylltiedig o feddyliau ac arferion ac yn meithrin cysylltiadau ar draws cymunedau ac o'u mewn**

- Gan adeiladu ar gyflawniadau'r strategaeth ddata, byddwn ni'n datblygu strategaeth effaith gyfannol yn manylu ar gynhyrchu, cyflwyno a defnyddio gwybodaeth yn ein penderfyniadau cynnig grantiau, datblygu strategaethau a chyfrannu at les cyhoeddus ehangach
- Byddwn ni'n defnyddio ein tystiolaeth a dysgu i gynnig mewnwelediad credadwy i feysydd polisi sy'n dod i'r amlwg, gan helpu llywio arferion sy'n effeithio ar gymunedau ledled y DU
- Portffolio o ymgynnull yn seiliedig ar wybodaeth sy'n dod â phobl ynghyd i ddadlau a thrafod syniadau, rhannu dysgu, trefnu cysylltiadau a deialog newydd, a chyfoethogi ein dysgu a mewnwelediad ar themâu/materion blaenoriaeth

# Amcan 3

## Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn werthfawr, yn ddibynadwy ac yn effeithlon

**Ffocws strategol 5:** Gwasanaethau corfforaethol gwych, gan arwain newid **sefydliadol cadarnhaol** a galluogi darpariaeth effeithlon ac effeithiol o'n strategaeth newydd

## Sut rydym ni'n pennu llwyddiant:

**Datblygu sefydliad ymatebol a gosod diwylliant gwella parhaus**

- Byddwn ni'n datblygu ac yn olrhain mesurau effeithiolrwydd, gan lywio gwelliannau yn ein prosesau craidd
- Byddwn ni'n rheoli ac yn gwella lefelau ymgysylltiad uchel ein gweithwyr
- Bydd gennym gynnig a model darparu Dysgu a Datblygu newydd i alluogi ein holl gydweithwyr i gael profiadau datblygu diriaethol
- Byddwn ni'n ail-ddychmygu ein strategaethau eiddo a thechnoleg i leihau cyfanswm y lle sydd wedi'i gontractio, lleihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol a galluogi ein modelau mannau a dulliau gweithio sy'n esblygu

**Cynyddu'r cyfle i leihau ein hallyriadau carbon ymhellach wrth i ni drawsnewid trwy gyfnod o adfer wedi'r pandemig**

- Byddwn ni'n cynyddu'r ffocws ar ein cyfrifoldeb amgylcheddol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan gynnwys gweithio o gartref, trwy ein timau craidd a'r Rhwydwaith Gweithredu Hinsawdd
- Byddwn ni'n cyflawni niwtraliaeth carbon, ac yn symud tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030 trwy:
  - » Lleihau ein hôl-troed carbon o ran cyflenwad nwy a thrydan, teithio a llety dros nos, peidio â hedfan o fewn ynys Prydain Fawr[2] a lleihau gwastraff tirlenwi yn unol â'n Cynllun Gweithredu Amgylcheddol
  - » Gwneud ymchwil i ddeall a lleihau ôl-troed carbon ein technoleg yn well a mesurau caffael a gweithredu eraill er mwyn lleihau allyriadau carbon ymhellach a dylanwadu ein cyflenwyr i wneud yr un peth
  - » Gwneud ymchwil i gadarnhau effaith amgylcheddol ein grantiau ac adnabod camau i leihau effeithiau niweidiol

**Gwella profiad cydweithwyr o gynhwysiant a lles trwy wella a chysylltu ein cynnig cefnogaeth ac integreiddio ystyriaethau cynhwysiant a lles yn ein dull newid yn well**

- Cymryd rhan mewn perfformiad mynegai i feincnod perthnasol
- Mae pob cydweithiwr yn adrodd bod y Gronfa'n darparu amgylchedd gweithio cynhwysol
- Byddwn ni'n cynyddu amrywiaeth drwy greu cyfleoedd i recriwtio cydweithwyr o amrywiaeth o gefndiroedd

[2] gan gynnwys Lloegr, Yr Alban a'i hynysoedd, a Chymru

# Amcan 3

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn werthfawr, yn ddibynadwy ac yn effeithlon

**Ffocws strategol 6:** Rydym ni'n ymrwymo i wneud y **gwahaniaeth mwyaf posibl y gall y Loteri Genedlaethol ei wneud i gymunedau ac i fesur, deall, rhannu a dathlu hyn**

## Sut rydym ni'n pennu llwyddiant:

**Byddwn ni'n gwerthuso, dysgu a chyfathrebu arferion da fel bod pobl yn deall sut mae cyllid y Loteri Genedlaethol yn cael ei ddefnyddio i wneud gwahaniaeth ledled y DU**

- Rydym ni'n darparu cyfathrebiadau ymgysylltiol ac effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu
- Mae deallusrwydd, gwybodaeth, dysgu a mewnwelediad o'r gwaith yr ydym yn ei ariannu'n cael eu rhannu'n eang, gan gyfrannu at well dealltwriaeth o ariannu'r Loteri Genedlaethol mewn cymunedau
- Mae pobl sy'n ymwybodol bod y Loteri Genedlaethol yn ariannu achosion da yn uwch na 45%
- Rydym ni'n parhau i adrodd y stori am sut mae arian y Loteri Genedlaethol yn helpu cymunedau i weithredu i ddiwallu heriau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg, gan gyfrannu'n weithredol at flaenoriaethau cenedlaethol ledled y DU

**Rydym ni'n gweithio gyda deiliaid grant i rannu arferion ac ysbrydoli ysbryd cymunedol, gan annog pobl i gefnogi'r Loteri Genedlaethol**

- Ar y cyd â'n cydweithwyr ariannu, mae rhwydweithiau lleol ledled y DU yn gallu siarad yn hyderus am yr effaith y mae cyllid y Loteri Genedlaethol wedi'i chael yn eu cymunedau
- Byddwn ni'n gweithio'n weithredol fel rhan o deulu'r Loteri Genedlaethol, i broffilio lle mae cymunedau'n arwain i fynd i'r afael â materion lleol a chenedlaethol sydd o bwys

# Diolch